**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 26 Awst 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd D Williams |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd
Mr G Purnell, Swyddog Rheoli Llygredd
Mr N Pilliner, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd H Fychan |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd T Williams |

**41 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

1) Fe wnaeth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman ddatgan buddiant personol mewn perthynas â chais 20/1182 i ddatblygu pum annedd ar wahân (Cymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl yn unol â rhoi caniatâd amlinellol ar 14/1308/13, fel yr estynnwyd gyda 19/0334/15) (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 23/03/2021). HEN SAFLE LLYFRGELL CWM-BACH, RHES MORGAN, CWM-BACH, ABERDÂR
"Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd, mae'n byw'n lleol ac rydw i wedi siarad gydag e i gadarnhau manylion yr ymweliad â'r safle yn unig."
2) Fe wnaeth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D Williams ddatgan buddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â chais 21/0720/15, sef parhau â gwaith cloddio a gweithrediadau cysylltiedig heb gydymffurfio ag amodau 1 i 4 ac amodau 45 a 46 a osodwyd ar atodlen o amodau Adolygiadau o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) Deddf yr Amgylchedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 24 Ebrill 2013 cyf: 08/1380/10 Chwarel Craig yr Hesg, Berw Road, Pontypridd CF37 3BG.
"Rwy'n Aelod o grŵp sy'n Gwrthwynebu Chwarel Hanson."

## 42 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 43 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 44 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021 yn rhai cywir, yn amodol ar newid y canlynol ar gais Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i funud 15, sef:

- Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio yr adroddiad i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth hir **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cymryd camau gorfodi yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu ond yn amodol ar leihau'r amser a argymhellir ar gyfer cydymffurfio o 12 mis i 6 mis o'r diwrnod y daw'r rhybudd i rym, gan fod y datblygiad yn dwysáu'r defnydd o lôn is-safonol heb lain welededd, man troi, digon o led, cilfachau pasio na strwythur digonol. Byddai'r elfennau yma'n effeithio ar ddiogelwch y briffordd a llif y traffig ar yr A4059, ac o ganlyniad, ystyrir nad yw'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisïau AW5 a NSA12 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

(**Nodyn:** Roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman yn dymuno cofnodi iddi ymatal rhag y bleidlais ar y gwelliant yma gan nad oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021.)

## 45 CAIS RHIF: 21/0720/15

**Parhau â gwaith cloddio a gweithrediadau cysylltiedig heb gydymffurfio ag amodau 1 i 4 ac amodau 45 a 46 a osodwyd ar atodlen o amodau Adolygiadau o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) Deddf yr Amgylchedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 24 Ebrill 2013 cyf: 08/1380/10 Chwarel Craig yr Hesg, Berw Road, Pontypridd CF37 3BG**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr G Jenkins (Asiant)

- Mr M Hervey (Gwrthwynebydd)
- Ms S Griffiths (Gwrthwynebydd)
- Mr S Pritchard (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr R Davies (Gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn am gael annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais yn bresennol i wneud hynny.

Arferodd yr Asiant, Mr G Jenkins, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H Fychan a'r Cynghorydd M Powell, nad ydyn nhw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi eu pryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais yn flaenorol (Cofnod Rhif 41), arferodd yr Aelod o'r Pwyllgor/Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams, ei hawl i annerch y Pwyllgor ar y cais o dan adran 14(2) o'r Cod Ymddygiad. Amlinellodd ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ddilynol).

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' gan Vikki Howells AS yn gwrthwynebu'r cais. Cafodd 13 llythyr 'hwyr' arall a dderbyniwyd gan drigolion eu crynhoi ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny am eu bod nhw o'r farn bod modd i'r cais niweidio'r amwynder a niweidio lles yr ardal. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**46 CAIS RHIF: 20/1182**

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams i'r cyfarfod)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr R Warren (Asiant)
- Ms K Doughton (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr R Warren, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol T Williams, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r Datblygiad

arfaethedig.

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan yr Aelod nad yw ar y Pwyllgor / Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Elliott, yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amodau ychwanegol canlynol, yn unol â chais Isadran y Priffyrdd:

- Amod 11 - Serch y manylion ar y cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno, fydd y datblygiad ddim yn cychwyn nes bod cynlluniau'n cynnwys addasiad i ffin y safle ger y ffordd ddienw / Rhes Morgan i gynnwys llain weledd o 2.4m x 40m o Faes y Pwll wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

- Amod 12 - Cyn i'r datblygiad gychwyn, bydd adroddiad yn nodi methodoleg ar gyfer cynnal arolwg amodau o ffyrdd lleol (y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arnyn nhw) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Dylai'r adroddiad gynnwys: yr amserlenni ar gyfer cynnal yr arolygon a'r dull(iau) o adrodd ar y canfyddiadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol; ffotograffau cynhwysfawr; a threfniadau iawndal posibl. Fydd y datblygiad ddim yn cael ei ddefnyddio nes bydd yr arolwg terfynol (ar ôl cwblhau'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn) ac unrhyw drefniadau iawndal wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**